POLISI A STRATEGAETH, DOGFENNU

# Cynllun Lwfans Cynhaliaeth Addysg a chynllun Grant Dysgu (addysg bellach) Llywodraeth Cymru 2022 i 2023

Y trefniadau ariannu ar gyfer y cynlluniau Lwfans Cynhaliaeth Addysg a Grant Dysgu Llywodraeth Cymru (addysg bellach) 2022 i 2023 (SFWIN 05/2022).

**Cyhoeddwyd gyntaf:** 29 Ebrill 2022

**Diweddarwyd ddiwethaf:** 29 Ebrill 2022

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/hysbysiad-gwybodaeth-cyllid-myfyrwyr-cymru-cynllun-lwfans-cynhaliaeth-addysg-chynllun-grant-dysgu-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

# Cynnwys


Ffurflenni cais

Categorïau preswyliaeth

Cynllun Grant Dysgu (Addysg Bellach) Llywodraeth Cymru – asesiad ariannol o incwm aelwydydd

Trefniadau COVID-19: presenoldeb, taliadau LCA wedi'u hôl-ddyddio a llofnodi Cytundebau Dysgu

Ymholiadau

Atodiad



**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/hysbysiad-gwybodaeth-cyllid-myfyrwyr-cymru-cynllun-lwfans-cynhaliaeth-addysg-chynllun-grant-dysgu-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

Mae'r Hysbysiad Gwybodaeth hwn yn rhoi manylion y cynlluniau Lwfans Cynhaliaeth Addysg (LCA) a Grant Dysgu (Addysg Bellach) Llywodraeth Cymru a asesir ar sail incwm ar gyfer y flwyddyn academaidd 2022 i 2023. Sicrhewch fod yr Hysbysiad Gwybodaeth hwn yn cael ei ddosbarthu i'r holl staff a chydweithwyr sy'n helpu i weinyddu'r cynlluniau.

Bydd copi o'r cynlluniau LCA a Grant Dysgu (Addysg Bellach) Llywodraeth Cymru ar gyfer 2022 i 2023 ar gael i'w **gweld ar dudalen we cyllid a chyllid i fyfyrwyr** Llywodraeth Cymru.

## Ffurflenni cais

Agorodd gwasanaeth Cyllid Myfyrwyr Cymru ar gyfer y cynlluniau LCA a Grant Dysgu (Addysg Bellach) Llywodraeth Cymru ar gyfer 2022 i 2023 ar 25 Ebrill 2022. Fel mewn blynyddoedd blaenorol, bydd pecynnau cais dwyieithog ar gyfer y flwyddyn academaidd newydd yn cael eu dosbarthu i ganolfannau dysgu cofrestredig. Bydd y ffurflenni a'r nodiadau canllaw newydd ar gymhwystra a hawl ar gyfer blwyddyn academaidd 2022 i 2023 hefyd ar gael i'w lawrlwytho o wefan **Cyllid Myfyrwyr Cymru**.

Mae'r dyfarniadau grant a'r trothwyon incwm ar gyfer y cynlluniau LCA a Grant Dysgu (Addysg Bellach) Llywodraeth Cymru wedi'u cynnal ar gyfer blwyddyn academaidd 2022 i 2023.

Gellir cysylltu â gwasanaeth cwsmeriaid dwyieithog Cyllid Myfyrwyr Cymru ar 0300 200 4050. Croesawir galwadau yn Gymraeg.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/hysbysiad-gwybodaeth-cyllid-myfyrwyr-cymru-cynllun-lwfans-cynhaliaeth-addysg-chynllun-grant-dysgu-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

# Categorïau preswyliaeth

Mae manylion am gategorïau preswyliaeth a newidiadau o ganlyniad i ymadael â'r UE ar gyfer blwyddyn academaidd 2022 i 2023 wedi'u nodi yn y tablau yn yr Atodiad.

Mae materion preswyliaeth a mewnfudo yn gymhleth ac os oes angen cyngor ar ymgeiswyr wrth gwblhau eu cais am gymorth, dylent gyfeirio at y nodiadau perthnasol neu gysylltu â gwasanaeth Cyllid Myfyrwyr Cymru. Fodd bynnag, dim ond ar ôl derbyn cais wedi'i gwblhau'n llawn gyda thystiolaeth ategol briodol y bydd Cyllid Myfyrwyr Cymru yn gallu penderfynu ar gymhwystra a hawl.

Bydd y ffurflenni a chanllawiau'r cynlluniau LCA a Grant Dysgu (Addysg Bellach) Llywodraeth Cymru ar gyfer blwyddyn academaidd 2022 i 2023 yn adlewyrchu'r newidiadau

# Cynllun Grant Dysgu (Addysg Bellach) Llywodraeth Cymru – asesiad ariannol o incwm aelwydydd

Bydd newidiadau'n cael eu gwneud i'r asesiad ariannol o incwm aelwydydd yng Nghynllun Grant Dysgu (Addysg Bellach) Llywodraeth Cymru ar gyfer y flwyddyn academaidd 2022 i 2023 fel a ganlyn:

- bydd myfyrwyr annibynnol yn cyd-fynd â myfyrwyr dibynnol a noddwyr/ partneriaid at ddibenion asesu incwm. Mae hyn yn golygu, ar gyfer 2022 i 2023, y gofynnir i ymgeiswyr sy'n fyfyrwyr annibynnol ddarparu gwybodaeth incwm ar gyfer y flwyddyn dreth 2020 i 2021. Mae'r newid yn caniatáu i Gyllid Myfyrwyr Cymru wirio manylion incwm yr aelwyd gyda CThEM

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/hysbysiad-gwybodaeth-cyllid-myfyrwyr-cymru-cynllun-lwfans-cynhaliaeth-addysg-chynllun-grant-dysgu-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

- I adlewyrchu incwm myfyrwyr dibynnol a rhieni a phartneriaid, bydd myfyrwyr annibynnol yn gallu gofyn am asesiad Incwm Blwyddyn Gyfredol os bu gostyngiad yn incwm eu haelwyd ers y flwyddyn dreth 2020 i 2021 nad yw'n ostyngiad dros dro
- bydd myfyrwyr dibynnol yn cyd-fynd â myfyrwyr annibynnol ac yn gallu darparu manylion ar gyfer didyniadau incwm a ganiateir

Bydd y ffurflen gais a'r canllawiau ategol ar gyfer Grant Dysgu (Addysg Bellach) Llywodraeth Cymru yn adlewyrchu'r newidiadau uchod.

## Trefniadau COVID-19: presenoldeb, taliadau LCA wedi'u hôl-ddyddio a llofnodi Cytundebau Dysgu

Bydd y trefniadau disgresiwn a gyflwynwyd mewn ymateb i reoli sefyllfa Covid-19 yn cael eu cynnal ar gyfer blwyddyn academaidd 2022 i 2023. Mae'r manylion yn **Hysbysiad Gwybodaeth (04/2020)**.

## Ymholiadau

Os oes gennych gwestiynau, cysylltwch â Thîm Addysg Uwch Llywodraeth Cymru drwy e-bostio **isadrancyllidmyfyrwyr@llyw.cymru**. Rydym yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg neu'n Saesneg.

Gellir lawrlwytho copi o'r Hysbysiad Gwybodaeth hwn yn Gymraeg neu'n Saesneg o **dudalen we cyllid a chyllid i fyfyrwyr** Llywodraeth Cymru.

Gellir gofyn am fersiynau o'r ddogfen hon mewn print bras, mewn Braille neu mewn ieithoedd eraill.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/hysbysiad-gwybodaeth-cyllid-myfyrwyr-cymru-cynllun-lwfans-cynhaliaeth-addysg-chynllun-grant-dysgu-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

# Atodiad

Bydd newid yn cael ei wneud i'r categori myfyrwyr cymwys canlynol yn y cynlluniau LCA a Grant Dysgu (Addysg Bellach) Llywodraeth Cymru:

| Categori | Newid ar gyfer 2022 i 2023 |
|---|---|
| Personau a ddiogelir ac aelodau o'u teuluoedd.<br><br>Ar hyn o bryd, mae'r categori hwn yn darparu ar gyfer person (a/neu aelod perthnasol o'r teulu) sy'n cael caniatâd i ddod i mewn neu i aros ar sail:<br><br>• diogelwch dyngarol<br>• caniatâd fel person di-wladwriaeth<br>• caniatâd o dan adran 67 i aros<br>• caniatâd Calais i aros | Bydd y categori'n cael ei ymestyn i gynnwys personau (a/neu aelodau perthnasol o'r teulu) sy'n cael caniatâd i ddod i mewn neu i aros yn y Deyrnas Unedig o dan Bolisi Adleoli a Chymorth Afghanistan neu Gynllun Adsefydlu Dinasyddion Afghanistan.<br><br>Mae hyn yn debyg i'r newid a wnaed mewn perthynas â chymorth i fyfyrwyr Addysg Uwch ar gyfer 2022 i 2023 a gyfathrebwyd yn **Hysbysiad Gwybodaeth (01/2022)**. |

Newidiadau pwysig eraill sy'n ymwneud â newidiadau o ganlyniad i ymadael â'r UE:

| Pwnc | Newid ar gyfer 2022 i 2023 |
|---|---|
| 2. Dileu darpariaethau'n ymwneud â'r | 2.1 Daeth y 'dyddiad cau ar gyfer ceisiadau' a'r 'cyfnod gras' sy'n gysylltiedig â'r Cynllun Preswylio'n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE i ben |

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/hysbysiad-gwybodaeth-cyllid-myfyrwyr-cymru-cynllun-lwfans-cynhaliaeth-addysg-chynllun-grant-dysgu-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

| Pwnc | Newid ar gyfer 2022 i 2023 |
|---|---|
| “cyfnod gras” ar gyfer y Cynllun Preswylio’n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE (EUSS). | ar 30 Mehefin 2021. Gwneir darpariaeth ar gyfer y rhain yn Rheoliadau Hawliau Dinasyddion (Dyddiad Cau ar gyfer Ceisiadau a Diogelwch Dros Dro) (Ymadael â’r UE) 2020.<br><br>Roedd pobl yn gallu gwneud cais am ganiatâd o dan y Cynllun Preswylio’n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE tan y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau, sef 30 Mehefin 2021. Cedwir rhai hawliau a roddwyd gan Reoliadau Mewnfudo (yr Ardal Economaidd Ewropeaidd) 2016 tan y dyddiad hwnnw hefyd, er gwaethaf y ffaith bod y rheoliadau hynny wedi eu dirymu – sef y ‘cyfnod gras’. At hynny, pan fo'r cyfnod gras wedi dod i ben a bod unigolyn wedi gwneud cais dilys na wnaed penderfyniad yn ei gylch eto, caiff y cyfnod hwn ei estyn tan y gwneir penderfyniad – sef y ‘cyfnod perthnasol’<br><br>2.2 Gwnaed darpariaeth yn Rheoliadau Addysg (Cyllid Myfyrwyr) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) (Ymadael â’r UE) 2021 i sicrhau na fyddai unrhyw unigolyn a oedd yn gwneud cais am gymorth i fyfyrwyr, ac a oedd wedi gwneud cais am ganiatâd i aros o dan y Cynllun Preswylio’n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE yn ystod y cyfnod gras, yn cael ei wneud yn anghymwys i gael cymorth i fyfyrwyr yn anfwriadol. Mae diwygiad angenrheidiol wedi ei wneud i'r rheoliadau cymorth i fyfyrwyr i ddileu unrhyw gyfeiriadau at y cyfnod gras (yn unig). |
| Diffiniadau o aelodau teulu gweithwyr AEE/Swisaidd. | Mae’r canllawiau ar y diffiniadau o aelodau o'r teulu yn cael eu diweddaru mewn ffurflenni cais i gyd-fynd yn well â diffiniadau yn y cynlluniau LCA a Grant Dysgu (Addysg Bellach) Llywodraeth Cymru. Bydd hyn yn gwneud y diffiniadau o aelodau'r teulu yn gliriach ar draws y categorïau preswyl gwahanol perthnasol. |
| Trwydded gweithiwr | Bydd gweithwyr trawsffiniol yn gallu darparu naill ai trwydded gweithiwr trawsffiniol neu dystiolaeth arall eu bod yn weithiwr trawsffiniol. |

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/hysbysiad-gwybodaeth-cyllid-myfyrwyr-cymru-cynllun-lwfans-cynhaliaeth-addysg-chynllun-grant-dysgu-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

| Pwnc | Newid ar gyfer 2022 i 2023 |
|---|---|
| trawsffiniol neu dystiolaeth gyfatebol arall. | Lle na ddarperir trwydded gweithiwr trawsffiniol, byddai angen tystiolaeth amgen i gadarnhau bod y person naill ai'n weithiwr trawsffiniol cyflogedig neu'n weithiwr trawsffiniol hunangyflogedig sy'n gweithio yn y DU. Bydd ffurflenni cais a chanllawiau'r Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr yn adlewyrchu'r rheol hon. |
| Aelodau teulu sy'n ymuno'n hwyr â gwladolion AEE/Swisaidd a ddaeth i'r DU cyn 31 Rhagfyr 2020. | Mae Cynllun Preswylio'n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE yn caniatáu i rai aelodau o'r teulu ddod i'r DU ar ôl 31 Rhagfyr 2020 i ymuno â gwladolyn o'r AEE neu'r Swistir sydd eisoes yn y DU. Rhaid i'r aelod o'r teulu sy'n ymuno wneud cais i Gynllun Preswylio'n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE ar ôl cyrraedd y DU ac yn gyffredinol mae ganddynt 90 diwrnod o'i ddyddiad cyrraedd i wneud hynny.<br><br>Mae gan aelod cymwys o'r teulu sy'n ymuno â gwladolyn sydd eisoes yn y DU hawliau fel dinasyddion o'r dyddiad y maent yn cyrraedd y DU, waeth a ydynt wedi gwneud cais am statws preswylydd cyn-sefydlog neu wedi cael statws preswylydd cyn-sefydlog. Felly, gall Cyllid Myfyrwyr Cymru asesu ymgeisydd am gyllid myfyrwyr cyn y dyddiad y rhoddir statws cyn-sefydlog, yn amodol ar fodloni'r rheolau a nodir yng Nghynllun Preswylio'n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE. |

**Efallai na fydd y ddogfen hon yn hollol hygyrch.**
Drllenwch ein **datganiad hygyrchedd** i gael rhagor o wybodaeth.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/hysbysiad-gwybodaeth-cyllid-myfyrwyr-cymru-cynllun-lwfans-cynhaliaeth-addysg-chynllun-grant-dysgu-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.